LGH-12-02 (p.1)

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**MESUR LLYWODRAETH LEOL DRAFFT**

## Pwrpas

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am brif elfennau'r Mesur Llywodraeth Leol drafft ac am gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys deddfwriaeth sylfaenol i Gymru yn y Mesur.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn nodi prif elfennau'r Mesur drafft a chynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddeddfwriaeth sylfaenol i Gymru.

## Crynodeb

3. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi celu ei bwriad i roi pwysau ar Whitehall i fod mor hyblyg â phosibl ym Mesur nesaf Llywodraeth Leol er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddatblygu atebion sy'n sensitif i anghenion ac amgylchiadau penodol Cymru. Mae'r papur hwn yn nodi'n fyr gynigion manwl Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Y Cefndir

4. Cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog Fesur Llywodraeth Leol drafft i bobl ymgynghori arno ar 12 Mehefin. Yn Lloegr yn unig y mae'r ymgynghori hwn yn digwydd oherwydd gwahaniaethau o ran amser cyhoeddi Papur Gwyn yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR) a 'Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol' Llywodraeth Cynulliad Cymru.
5. Bwriad y Mesur drafft yw rhoi grym i'r holl gynigion yn y Papur Gwyn sy'n galw am ddeddfwriaeth. Mae mwyafrif yr ymrwymiadau sy'n perthyn i'r categori hwn yn ymwneud â chyllid llywodraeth leol, ond mae yna rai elfennau pwysig sy'n darparu hyblygrwydd gweithredol mwy cyffredinol i awdurdodau lleol. Ymhlith prif elfennau'r Mesur drafft mae darpariaethau i:

- Ddiddymu cymeradwyaethau credyd a sefydlu system ddarbodus newydd

- Cyflwyno Ardaloedd Gwella Busnes
- Gostwng trethi busnes i fusnesau bach
- Cyflwyno cylch ailbrisio statudol ar gyfer treth y cyngor
- Cryfhau systemau rheoli ariannol lleol
- Symleiddio'r system cyllid tai
- Cyflwyno pwer i godi ffi am wasanaethau dewisol
- Cyflwyno pwer cyffredinol i ganiatáu i awdurdodau lleol fasnachu
- Cyflwyno pwer cyffredinol i ganiatáu i awdurdodau lleol godi ffi am wasanaethau dewisol

1. Bydd ymgynghoriad Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn dod i ben ar 23 Awst. Gobeithir y bydd Mesur Llywodraeth Leol yn cael ei gyflwyno yn yr hydref.

**Materion i'w hystyried**

2. Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu at Weinidog Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog dros Lywodraeth Leol, yn gofyn a ellid sicrhau mai galluogi yn hytrach na rhagnodi y bydd deddfwriaeth sylfaenol yn ei wneud, fel egwyddor gyffredinol, o ran yr eitemau hynny yn y Mesur sy'n ymwneud â Chymru, nad oes angen ymgynghori arnynt. Mae'r eitemau hyn wedi'u nodi yn Atodiad 1.
3. O ran yr eitemau polisi hynny sy'n dibynnu ar ganlyniad ymgynghori, mae'r Gweinidog wedi gofyn am i'r ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei drafftio mewn modd a fydd yn galluogi'r Cynulliad i lunio is-ddeddfwriaeth i roi grym i'w benderfyniadau polisi (ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad) yng nghwrs arferol ei fusnes. Mae'r eitemau hyn wedi'u nodi yn Atodiad 2.
4. O ran yr eitemau hynny o'r Mesur sy'n gyffredin i Gymru a Lloegr, mae'r Gweinidog wedi gofyn am i'r pwerau hynny sydd wedi'u dirprwyo i Ysgrifennydd Gwladol Lloegr gael eu dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lle y bo hynny'n briodol.

**Cydymffurfio**

5. Mae'r papur hwn wedi'i lunio yn unol ag a40 Deddf Llywodraeth Cymru sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud unrhyw beth sy'n hwyluso arfer ei swyddogaethau, neu sy'n atodol i hynny mewn perthynas â llywodraeth leol. Mae'r pwer hwn wedi'i ddirprwyo i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac i swyddogion. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Swyddog Cyswllt:** Gwilym Evans, yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol